BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (GARTHMYL AC ABBEY BANK, POWYS) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 200-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn cadw safonau diogelwch digonol ar gyfer defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra gosodir wyneb newydd ar Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), ger Garthmyl ac Abbey Bank yn Sir Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 08:30 o'r gloch ar 19 Hydref 2009 a byddant yn parhau mewn grym tan 30 Hydref 2009 neu nes bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol. Disgwylir y byddant yn gweithredu yn unig rhwng 08:30 o'r gloch a 17:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod penodol

Effaith y Gorchymyn arfaethedig, a fydd yn para am 18 mis ar y mwyaf, fydd:

i. Gosod dros dro derfyn cyflymder, y bydd arwyddion traffig yn eu dangos, o naill ai 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder 40 mya a 30 mya yn gweithredu dros hyd cyfan y darnau penodedig o'r gefnffordd a bydd y terfyn 10 mya yn gymwys pan fydd mintai o weithwyr wrthi'n gweithio ar unrhyw ddiwrnod penodol;

ii Gwahardd unrhyw gerbyd rhag goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

### YR ATODLEN

i. Y darn hwnnw o'r gefnffordd ger Garthmyl sy'n ymestyn tua'r gogledd o bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o Bont Llifior hyd at bwynt 38 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yr U2632;

ii. Y darn hwnnw o'r gefnffordd wrth Abbey Bank sy'n ymestyn o bwynt 1,053 o fetrau i'r de-orllewin o'r fynedfa i Mill Farm hyd at bwynt 210 o fetrau i'r gogledd o'r fynedfa i Crowther Hall.

**GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.**

## THE A483 TRUNK ROAD (GARTHMYL AND ABBEY BANK, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS AND PROHIBITIONS) ORDER 200-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain adequate safety standards for road users and the workforce whilst carriageway-resurfacing works are undertaken on the Swansea - Manchester Trunk Road (A483) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Garthmyl and Abbey Bank in the County of Powys.

The restrictions and prohibitions, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 08:30 hours on 19 October 2009 and will remain in force until 30 October 2009 or until the temporary traffic signs are removed permanently. They are only expected to operate between 08:30 hours and 17.00 hours on any given day.

The effect of the proposed Order, which will have a maximum duration of 18 months, will be to:

i. Impose temporarily, when indicated by traffic signs, either a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit along those lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The 40 mph or 30 mph speed limits will operate over the full extent of the specified lengths of the trunk road and the 10 mph limit will apply when convoy working is in force on any given day;

ii. Prohibit all vehicles from overtaking in the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

### SCHEDULE

i. That length at Garthmyl that extends in a northerly direction from a point 150 metres north of Llifior Bridge to a point 38 metres north of its junction with the unclassified road U2632;

ii. That length at Abbey Bank that extends from a point 1,053 metres south west of the access to Mill Farm to a point 210 metres north of the access to Crowther Hall.

**A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.**